

CANLLAW I YMWELOWYR I BROFION COVID-19

Profion Ymwelwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan –

Er mwyn eich galluogi chi fel partner neu gefnogwr menyw beichiog i ymweld tra bydd yn mynychu clinig Cynenedigol neu yn yr ysbyty, rydym wedi llunio cyfres o ganllawiau a chyfarwyddiadau i'ch diogelu chi, ein cleifion a'n staff. Bydd yr wybodaeth a restrir isod yn amlinellu'r weithdrefn mae'n rhaid i chi ddilyn er mwyn ymweld gyda neu ymweld â'ch partner. Mae sicrhau nad oes gennych chi COVID-19 cyn cyrraedd safle ein hysbyty yn ganolog i'n gweithdrefnau rheoli haint.

Cael Prawf COVID-19 cyn eich ymweliad/presenoldeb

I ddiogelu eich partner, cleifion eraill a staff yr ysbyty, rydym yn gofyn i'r holl ymwelwyr gael eu profi cyn eu hymweliad. Mae dwy ffordd i chi gael eich profi:

- 1. Profion labordy (PCR)**
- 2. Profion llif cyflym (unffordd)**

Sut i drefnu prawf labordy (PCR)

Gallwch drefnu prawf labordy COVID-19 ar-lein neu dros y ffôn. **Cofiwch y gall gymryd 48-72 awr i ddychwelyd canlyniad eich prawf labordy.** Sicrhewch eich bod yn trefnu'r prawf 2-3 niwrnod cyn yr ymweliad i sicrhau bod y canlyniad yn ôl mewn pryd.

I drefnu prawf, gallwch naill ai glicio ar y ddolen <https://www.gov.uk/get-coronavirus-test> neu ffonio 119.

Bydd angen i chi ddweud “*Dwi wedi cael cyfarwyddyd i gael prawf gan fy nghyngor lleol, tîm diogelu iechyd neu weithiwr gofal iechyd*” wrth drefnu eich prawf. Esboniwch fod gweithiwr iechyd proffesiynol wedi gofyn i chi gael prawf, er nad oes gennych chi symptomau ar hyn o bryd.

Sut i drefnu prawf llif cyflym (unffordd)

Mae profion COVID-19 asymptomatig (heb symptomau) yn dod yn rhan gynyddol o fywyd arferol, a gall unrhyw un nawr gael mynediad i becynnau profi yn y cartref o bwyntiau casglu ar draws De Cymru. Mae'r profion Llif Unffordd Covid-19 hyn wedi eu cynllunio i'w cyflawni gartref ac yn darparu sicrwydd nad ydych yn cario'r firws COVID-19 heb fod yn arddangos unrhyw symptomau. Nid yw'r profion hyn yn addas os oes gennych chi symptomau, yn yr achos yma, a dylech gysylltu ag 119 ac archebu prawf labordy.

Gellir archebu profion Covid-19 llif unffordd ar-lein i'w danfon i'ch cartref neu eu casglu o Safleoedd Profi Lleol (LTS). Mae'r Safleoedd canlynol ar agor i gasglu profion Llif Unffordd Covid-19 rhwng 08:00-13:00 dydd Llun i ddydd Sul:

1. Safle Profi Pont-y-pŵl: Old Mill Car Park, Trosnant Street, Pont-y-pŵl, NP4 8AT
2. Safle Profi Betws: Lambourne Way, Betws, Casnewydd, NP20 7DZ
3. Safle Profi Rhymni: Brewery Lane, Rhymni, NP22 5EZ
4. Safle Profi Pillgwenlly: Commercial Road, Pillgwenlly, NP20 2PL.
5. Safle Profi Dyffryn: Duffryn Drive, Dyffryn, Casnewydd, NP10 8TE

Neu fe ellir archebu profion llif unffordd COVID-19 ar-lein i'w danfon i'ch cartref:

<https://test-for-coronavirus.service.gov.uk/order-lateral-flow-kits>

Proses ar gyfer mynychu/ymweld:

1. Trefnwch brawf labordy llawn (PCR) 2-3 niwrnod cyn eich ymweliad.
- NEU**
2. Casglwch brofion Llif Unffordd Covid-19 neu eu harchebu ar-lein i'w danfon i'ch cartref o flaen llaw i'ch ymweliad. Cwblhewch brawf ar ddiwrnod eich ymweliad. Cyflwynwch eich canlyniad prawf Llif Unffordd Covid-19 ar y porth GIG ar-lein. Sylwer, bydd gwybodaeth a chyfarwyddyd yn cael ei gynnwys yn eich pecyn prawf Llif Unffordd Covid-19.
3. Ewch i'r ddesg sgrinio/hyb ymwelwyr yn y clinig cynenedigol neu yn yr ysbyty.
4. Darparwch eich tystiolaeth o brawf COVID-19 negyddol (**heb hyn gellir gwrthod mynediad i chi**).
5. Llenwch Holiadur ac Ymwadiad wrth gyrraedd.
6. Fe roddir Cyfarpar Amddiffynnol Personol (PPE) priodol i chi.
7. Sicrhewch eich bod yn cydymffurfio gyda'n cyfyngiadau Covid-19 tra byddwch ar y safle ar gyfer eich diogelwch chi a'ch anwyliad.